**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**29 MAI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 29 Mai 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Ian Dunbar, David Evans, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Neville Phillips, Owen Thomas a David Williams.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Veronica Gay a Mike Peers

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorydd Cindy Hinds yn bresennol fel aelod lleol ar gyfer eitem 7.1 (059352) ar y Rhaglen.
Roedd y Cynghorydd Marion Bateman yn bresennol fel arsylwr.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Ian Dunbar y Cynghorydd Richard Lloyd fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Richard Lloyd fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3. SYLWADAU HWYR

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau hwyr.

## 4. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 1 Mai 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

5. **EITEMAU I'W GOHIRIO**

Ni argymhellwyd gohirio’r eitem a restrwyd.

6. **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi’r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

7. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o’r wasg na’r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 1.51 pm)

…………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i’n llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 29 MAI 2019**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059352 | Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd | Cais Llawn - Codi 32 o anheddau ar dir ar Ffordd Penarlâg, Penyffordd. | Siaradodd Mr S. Andrew, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Cindy Hinds, yr aelod lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |